# Cyngor Cymuned Llannon Community Council

## Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn Cyngor Cymuned Llannon
## a gynhaliwyd
## ar
## Ddydd Mercher Hydref 19eg 2022 am 6.30yh
## Cynhaliwyd o bell trwy gyfrwng Zoom

## Dechreuodd y Cyfarfod am 6:32yh

**Y Cadeirydd, y Cynghorydd Lesley Williams, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod.**

**Cofnod rhif 105 – Aelodau'n Bresennol**

Y Cynghorydd L. Williams (LW)
Y Cynghorydd R. Jones (RJ)
Y Cynghorydd E. G. Evans (EGE)
Y Cynghorydd D. Jones (DJ)
Y Cynghorydd Ll. Davies (LD)
Y Cynghorydd R. Lloyd-Davies (RD)
Y Cynghorydd S. Stewart (SS)
Y Cynghorydd J. Owen (JO)
Y Cynghorydd P. Owen (PO)
Y Cynghorydd C. Davies (CD)
Y Cynghorydd M Jones (MJ)
Y Cynghorydd C. Bowkett (CB)

**Hefyd yn Bresennol:**
Mrs. C. Hope – Clerc (CH)
Miss. Ff. Lewis – Dirprwy Glerc (FL)
Mr. H. Jones – Cyfieithydd (HJ)

**Cofnod rhif 106 – Ymddiheuriadau a rhesymau dros bod yn absennol.**

Y Cynghorydd N. Thomas – ar wyliau.

**Cofnod rhif 107 – Datganiadau o fuddiant**

RD – Aelod Pwyllgor Cyfeillion y Coetir
JO – Yn briod â P.O.
PO – Yn briod â J.O.
EGE – Aelod o Cadwch Mynydd Mawr yn Daclus.
LW - Aelod o Cadwch Mynydd Mawr yn Daclus
RJ – Mab DJ.
DJ – Mam RJ, aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin, Llywodraethwr yn Ysgol y Tymbl.
SS – Llywodraethwr yn Ysgol Penygroes.
LD – Yn briod â CD, Aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin.
CD – Yn briod â LD, Llywodraethwr yn Ysgol Llannon.

**Cofnod rhif 108 – Ystyried materion yr Heddlu.**

Hysbysodd y Clerc y Cyngor bod y cyfarfod nesaf gyda'r Heddlu i'w gynnal ar Ddydd Llun, Hydref 24ain 2022. Roedd hi hefyd wedi hysbysu'r Cyngor o'r gwasanaeth negeseuon o'r enw "Llais". Mae modd defnyddio'r gwasanaeth hwn i hysbysu'r Heddlu am ddigwyddiadau, a gwneud ymholiadau.

**Cofnod rhif 109 – Gwirio a chadarnhau'r cofnodion.**

**Penderfynwyd** bod cofnodion canlynol y Cyngor Cymuned (a ddosbarthwyd yn flaenorol i'r aelodau) yn gywir a'u bod yn cael eu gwirio, eu derbyn a'u cadarnhau yn ôl-weithredol gan bawb:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd ar Fedi 28ain 2022.

**Cofnod rhif 110 – Materion yn codi o'r cofnodion.**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

**Cofnod rhif 111 – Cyfranogiad y Cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**Cofnod rhif 112 – Derbyn adroddiad y Clerc.**

Rhoddodd y Clerc adroddiad llawn i'r holl aelodau.

Roedd adroddiad y Clerc i'r Cygnor yn cynnwys y materion canlynol:

- Roedd llythyr o ddiolch wedi'i dderbyn oddiwrth y Cyfeillion.
- Erbyn hyn y Clerc yw ysgrifennydd cangen Gorllewin Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, a FL yw'r trysorydd.
- Roedd y digwyddiad rhwydweithio a gynhaliwyd yn Cross Hands yn llwyddiant mawr. Roedd y busnesau lleol a oedd yn rhan o'r cynllun yn fodlon iawn, ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Cyngor.
- Disgwylir bod y ddau gynhwysydd storio newydd yn ein cyrraedd ar Dachwedd 3ydd 2022.
- Yr ydym yn disgwyl y bydd y peiriant torri glaswellt John Deere newydd yn cyrraedd ar Hydref 20fed 2022.
- Mae'r fan wedi'i harchebu, ond rhaid i'r Cyngor aros tra bod y dogfennau angenrheidiol yn cael eu paratoi.
- Mae'r padiau i'r diffibrilwr y tu fa's i Neuadd y Tymbl wedi'u hamnewid.
- Mae Clwb Rotary Cwm Gwendraeth wedi mynegi diddordeb mewn gwirfoddoli. Byddant yn helpu paentio'r Cwtsh ac yn dosbarthu taflenni.
- Ar ôl cyfeirio'r materion cynnal a chadw'r Feithrynfa ym Mharc Llechyfedach at sylw'r Cyngor Sir, mae'n ymddangos taw Cyngor Cymuned Llannon sy'n berchen ar yr adeilad. Bydd y Clerc yn archwilio'r mater hwn ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor pan fydd datblygiadau pellach ynghylch y mater.
- Mae'r Clerc yn rhan o'r rhaglen Economi Gylchol a bydd hi'n mynychu cyfarfodydd misol.
- Mae'r Clerc yn ystyried y cynllun prydles newydd ar gyfer Parc Cross Hands.
- Ar hyn o bryd, 'rydym yn aros am ddau ddyfynbris am yr offer chwarae ym Mharc Cross Hands.
- Mae'r Pwyllgor Bowlio wedi ymddiheurio i'r Cyngor am y digwyddiad a gafodd ei gyfeirio gan aelod o'r cyhoedd. Bydd y Clerc yn cwrdd â'r teulu y cyfeirir atynt er mwy ymddiheurio iddynt.
- Mae'r clawdd o gwmpas y grin bowlio wedi'i dorri.
- Mae'r Clerc wedi cyfeirio at y cwmni y materion ynghylch yr offer chwarae ym maes chwarae y Tymbl. Ar hyn o bryd mae'r Clerc yn aros am ateb.
- Bydd y difrod i gofeb rhyfel y Tymbl yn cael ei atgyweirio cyn Sul y Coffa.

- Roedd y Clerc wedi dosbarthu rheolau'r Cwtsh drwy ebost i'r holl aelodau cyn y cyfarfod. Fel bod modd i'r Clerc wneud cais at y gronfa dlodi, mae angen cyflwyno rhestr o reolau.

*Roedd JO wedi cynnig bod y Cyngor yn derbyn y rhestr o reolau ar gyfer y Cwtsh. Eilwyd y cynnig gan SS. Roedd RJ, CB a DJ wedi atal pleidlais. Roedd yr holl aelodau eraill a oedd yn bresennol o blaid.*

**Penderfynwyd** derbyn y restr o reolau ar gyfer y Cwtsh, a ddosbarthwyd yn flaenorol gan y Clerc.

- Mae'r canlynol wedi cyfrannu, yn garedig, at y Cwtsh:
    - Dewi Sant (rhodd o fwyd)
    - Y Cynghorydd S. Stewart
    - Y Cynghorydd Ll. Davies a'r Cynghorydd C. Davies
    - Castell Howell (gwerth £1000 o fwyd)
- Mae boeler newydd wedi'i osod yn ei le, y gegin wedi'i chwblhau a drysau/ ffenestri newydd wedi'u gosod yn Y Cwtsh.
- Mae'r Clerc yn gobeithio y bydd Y Cwtsh yn barod i'w agor ar Hydref 31ain 2022. Bydd y cyfleuster ar agor ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener rhwng 10.00 yb. a 2.00 yh, a bydd yr oriau agor yn cael eu hadolygu yn gyson. Bydd taflenni gwybodaeth yn cael eu dosbarthu i aelodau'r gymuned o fewn yr wythnos nesaf.
- Mae'r Clerc wedi bod mewn cyswllt â'r Cyngor Sir, ac efallai bod posibilrwydd benthyca e-feiciau, a fyddai'n gallu cael eu llogi o'r Cwtsh.
- Mae'r Asesiad Risg Tân ar gyfer y Pafiliwn wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd at y Clerc. Mae'r Clerc yn falch i ddweud nad oedd unrhyw faterion pwysig yn codi.
- Mae'r cadeiriau newydd wedi cyrraedd Neuadd y Tymbl, a'r hen rhai wedi'u rhoi i ffwrdd.
- Bydd Bronwen Lewis yn ymddangos yn Neuadd y Tymbl ar Hydref 21ain a'r 28ain 2022.
- Roedd yr angladd a'r briodas a gynhaliwyd yn y Neuadd yn llwyddiannus iawn. Yn y dyfodol, wrth drefnu digwyddiadau mawr, bydd y Clerc yn trafod gydag arlwywyr allanol.
- Mae goleuadau newydd y tu fa's i Neuadd y Tymbl.
- Roedd y Clerc wedi argymell i'r Cyngor y bydd angen i Bwyllgor y Neuadd ystyried y gyllideb olew bresennol oherwydd y cynnydd ym mhris olew.
- Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Cross Hands wedi llogi Neuadd y Tymbl ar gyfer eu parti Calan Gaeaf.

- Mae Garreg Lwyd wei llogi Neuadd y Tymbl ar gyfer parti Nadolig ac yn ystyried sefydlu clwb ieuenctid.
- Mae’r awyrell wedi’i osod yn y gegin, a’r stofau wedi’u hail-gomisiynu.
- Ar hyn o bryd mae pob aelod o staff yn derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Mae Tîm Gweithredu Cross Hands wedi cysylltu â’r Clerc, ac wedi gofyn caniatâd i gynnal eu carnifal ym Mharc Cross Hands ar Orffennaf 8fed 2023. Dywedodd y Clerc bod ganddynt Gadeirydd newydd, sef Mr Sutherland, a’u bod yn ymddangos yn awyddus i redeg y digwyddiad yn y ffordd gywir o hyn ymlaen. Mae’r Clerc wedi gofyn iddynt am ragor o fanylion, a bydd hi’n adrodd yn ôl pan y bydd wedi derbyn y manylion hynny.

**<u>Cofnod rhif 113 – Trafod y ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:</u>**

a) **PL/04761 Cais Cynllunio: PL/04761.**
*Addasu’r cytundebau Adran 106 S/24486 a S/24486 (addasiad er mwyn cwtogi ar y nifer o unedau fforddiadwy o 8 i 4. (wedi’u dylunio i safon DQR) ynghyd â’r swm o £11,000 fel swm o arian gohiriedig ‘in lieu’).*
*Tir cyfagos i Heol y Ffynnon, Llannon, Llanelli.*

Roedd y Cynghorwyr wedi mynegi eu consyrn o ran lleihau’r nifer o dai fforddiadwy o 8 i 4. Mae DJ wedi cysylltu â Chyngor Sir Caerfyrddin i geisio eglurhad ynghylch y gostyngiad ac, ar hyn o bryd, yn disgwyl gohebiaeth bellach.

*Roedd DJ wedi cynnig bod Cyngor Cymuned Llannon yn sefydlu Pwyllgor Cynllunio. Roedd PO wedi eilio’r cynnig. Roedd pawb yn bresennol o blaid.*

**<u>Penderfynwyd</u>** sefydlu Pwyllgor Cynllunio.

b) **PL/04777 Cais Cynllunio: PL/04777.**
*Creu ardal storio ddiogel yng nghefn Cyfnewidfa Deliffôn Cross Hands. Bydd yr ardal storio yn lle i gadw’r deunyddiau ac offer a ddefnyddir i gefnogi’r gwaith o ehangu’r rhwydwaith seilwaith telegyfathrebu leol. Mae’r Llywodraeth wedi gosod targed i sicrhau bod lleiafswm o 85% o leoliadau yn gallu derbyn gwasanaeth gigabeit-alluog erbyn 2025. Bydd y*

*datblygiad, mewn cysylltiad â safleoedd eraill, yn golygu bod BT yn gallu anfon timau o beiriannwyr ar draws y wlad mewn cyfnod cymharol fyr o amser. Bydd modd gosod y safleoedd a thynnu ymaith cynwysyddion caeedig, heb effeithio'n ormodol ar y safle cyfan a'r ardal.*
*Heol Pontarddulais, iard gefn y Gyfnewidfa Deliffôn, Cross Hands, Llanelli, SA14 6NT.*

Ni nodwyd unrhyw sylwadau.

c) **PL/04796 Cais Cynllunio: PL/04796.**
*Symud Uwchbridd.*

Ni nodwyd unrhyw sylwadau.

**Cofnod rhif 114 – Trafod cais am gymorth ariannol oddiwrth Eisteddfod Y Tymbl.**

*Roedd JO wedi cynnig bod y Cyngor yn gwneud rhodd gwerth £300 ar yr amod bod yr Eisteddfod yn cyflwyno copi o'u cyfrifon. Eiliwyd y cynnig gan CD. Roedd yr holl aelodau yn bresennol o blaid.*

**Penderfynwyd** gwneud rhodd o £300 i Eisteddfod Y Tymbl.

*Roedd DJ wedi cynnig bod y Cyngor, yn y dyfodol, yn ystyried y gwahanol fath o gefnogaeth y mae modd darparu. Eiliwyd y cynnig gan RD. Roedd MJ wedi atal pleidlais. Roedd yr holl aelodau eraill yn bresennol o blaid.*

**Penderfynwyd** ystyried y gwahanol fathau o gefnogaeth y gallai'r Cyngor ddarparu i Eisteddfod Y Tymbl yn y dyfodol.

**Cofnod rhif 115 – Derbyn adroddiadau'r Cynghorwyr.**

*Roedd DJ wedi cynnig bod yr eitem hon yn cael ei diddymu o agendau'r dyfodol. Roedd JO wedi eilio'r cynnig. Roedd yr holl aelodau yn bresennol o blaid.*

**Penderfynwyd** diddymu'r eitem hon o agendau'r dyfodol.

**Cofnod rhif 116 – Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir.**

Roedd y Clerc wedi dosbarthu i'r holl aelodau, yn flaenorol a thrwy ebost, adroddiad gan LD a DJ.

***7.44 p.m. Gadawodd y Cynghorydd C. Bowkett y cyfarfod ac ni ddychwelodd.***

*Roedd SS wedi cynnig y dylai'r eitem agenda hon ddweud, yn y dyfodol "bydd materion Sirol yn cael eu dwyn at sylw'r Cyngor Cymuned, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig". Roedd PO wedi eilio'r cynnig. Roedd DJ a RJ yn erbyn y cynnig. Roedd yr holl aelodau eraill o blaid.*

*Roedd DJ wedi cynnig y gwelliant canlynol i'r cynnig uchod, gan newid y geiriad i, "Derbyn adroddiad llafar oddiwrth y Cynghorwyr Sir". Roedd RJ wedi eilio'r cynnig. Roedd RD, PO a SS wedi atal pleidlais. Roedd yr holl aelodau eraill o blaid.*

**Penderfynwyd** newid geiriad yr eitem hon ar yr agenda i ddweud "Bydd materion Sirol yn cael eu dwyn at sylw'r Cyngor Cymuned, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig".

***8.08 p.m. Gadawodd Mr. H. Jones y cyfarfod ac ni ddychwelodd.***

**Cofnod rhif 117 – Materion Personél.**

a) **Negeseuon a dderbyniwyd gan aelodau'r Cyngor oddiwrth aelod o'r cyhoedd.**
   Roedd y Clerc wedi hysbysu'r Cyngor bod angen anfon unrhyw negeseuon afresymol a dderbyniwyd gan Gynghorwyr at y Clerc, fel bod modd penderfynu p'un ai bod angen gweithredu'n gyfreithiol yn eu cylch.

b) **Adolygiad cyflog cyfnod prawf ar gyfer dau o'r tirmyn.**
   Roedd y Clerc wedi hysbysu'r Cyngor bod cyfnod prawf dau o'r tirmyn (SR a LF) wedi dod i ben. Roedd y Clerc wedi argymell bod y ddau dan sylw yn derbyn cyflog ar lefel 7 o raddfa NALC, sydd eisoes wedi'i

gynnwys yn y gyllideb ar gyfer eleni. Bydd yr holl gyflogau yn cael eu hadolygu yn y flwyddyn ariannol nesaf.

*Roedd PO wedi cynnig bod y Cyngor yn cytuno bod y staff dan sylw wedi cwblhau eu cyfnodau prawf a'u bod, yn y dyfodol, yn derbyn cyflog ar raddfa NALC, lefel 7. Roedd EGE wedi eilio'r cynnig. Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Penderfynwyd** bod y ddau dirmon wedi cwblhau eu cyfnod prawf yn llwyddiannus, a'u bod yn derbyn cyflog ar raddfa NALC, lefel 7.

**c) Glanhawr.**

Hysbysodd y Clerc y Cyngor bod glanhawr newydd (PG) wedi'i benodi a, gyda sêl bendith y Cyngor, bydd yn dechrau ar ei waith yr wythnos hon.

*Roedd JO wedi cynnig bod y Cyngor yn derbyn argymhellion y Clerc o ran y glanhawr newydd, ac yn penodi'r person hwnnw. Roedd PO wedi eilio'r cynnig. Roedd yr holl aelodau a oedd yn bresennol o blaid.*

**Penderfynwyd** penodi'r glanhawr newydd ar unwaith.

***Daeth y cyfarfod i ben am 8.32 yh***

**Llofnod** ........................................................ **Dyddiad** ..................................